# Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

## Cyfrifon Blynyddol
## ar gyfer y flwyddyn yn diweddu
## 31 Mawrth 2010

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 3 |
| Sylwadaeth y Rheolwyr | 8 |
| Adroddiad Taliadau | 11 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr | 15 |
| Datganiad ar Reolaeth Fewnol | 16 |
| Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 19 |
| Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 | 21 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2010 | 22 |
| Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 | 23 |
| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 | 23 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 24 |

# CYFRIFON BLYNYDDOL

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

- **Hanes a chefndir statudol**

Sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Medi 2000. Diwygiwyd cylch gorchwyl a swyddogaethau'r Cyngor gan Ddeddf Addysg 2002.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi dynodi'r Cyngor yn gorff proffesiynol hunanreoleiddiol. Yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu, mae'r Cyngor wedi cyllido'i hun drwy ffioedd cofrestru athrawon, ar wahân i'r agweddau hynny ar ei waith sy'n cael eu cyllido drwy grant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi llythyr cynnig grant i'r Cyngor yn nodi'r amodau y dylid cydymffurfio â hwy mewn perthynas ag agweddau penodol ar y gwaith y mae'n ei gyllido. Mae'r Cyngor yn amlinellu ei weithdrefnau a'i reolau ariannol yn ei Reolau Sefydlog a'i Lawlyfr Cyllid.

Dan Baragraff 14 Atodlen 1 y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dyddiedig 13 Mawrth 2007. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyngor.

- **Prif amcanion a gweithgareddau**

Mae prif nodau'r Cyngor wedi'u nodi yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Y nodau yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon, er lles y cyhoedd. Mae manylion pellach wedi'u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.

- **Adolygiad o weithgareddau a datblygiadau**

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2010, cofnododd y Cyngor warged o £199,000 (£34,000 o warged yn 2008-09 (wedi'i ailddatgan)) ac asedau net a ddaeth i gyfanswm o £626,000 (£405,000 ar 31 Mawrth 2009 (wedi'i ailddatgan)).

Daeth yr asedau sefydlog diriaethol a gafaelwyd yn ystod y flwyddyn i gyfanswm o £15,000, a daeth yr asedau sefydlog anniriaethol i gyfanswm o £24,000.

Cafodd swyddogaethau rheoleiddio a chynghori'r Cyngor eu cyllido gan ffi gofrestru flynyddol athrawon, sydd wedi'i gosod ar £45. Fodd bynnag, byddai penderfyniad Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru i osod cap ar y ffi ar y lefel honno am gyfnod tair blynedd wedi peri lefel annerbyniol o'r diffyg a ragwelir yn 2009-10. O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor ohirio neu roi'r gorau i weithgarwch werth £113,000 a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Gwnaed arbedion pellach o tua £100,000 yn ystod y flwyddyn ym maes contractau'r swyddog cyflwyno, staffio a theithio a chynhaliaeth wrth baratoi ar gyfer yr arbedion o 8% y byddai eu hangen yn 2010-11. Yn ogystal, seiliwyd y gyllideb flynyddol ar gyfer gwaith achosion Safonau Proffesiynol ar ymdrin â 25 o achosion yn ystod y flwyddyn, ond yn y diwedd, 18 o achosion yn unig a gynhaliwyd. Roedd hyn hefyd yn cyfrannu i'r gwarged a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn, a bydd yn ategu'r costau ychwanegol a ragwelir yn 2010-11.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor yn parhau i weinyddu rhaglen gyllido datblygiad proffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru i athrawon yn nhair blynedd gyntaf eu

gyrfaoedd. Roedd y gyllideb ar gyfer y gwaith hwn yn annigonol, ond roedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru falans i ddarparu ar gyfer nifer yr athrawon newydd a gynlluniwyd.

Bu'r Cyngor hefyd yn gweinyddu rhaglen datblygiad proffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru â ffocws unigol ar gyfer athrawon mwy profiadol (£2,978,000). Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad y byddai rhaid cau'r rhaglen gyllido i ymgeiswyr newydd o fis Ebrill 2010 ymlaen. Er gwaethaf cyfathrebu clir ag athrawon ac awdurdodau lleol, cafodd y cyhoeddiad effaith ddifrifol ar geisiadau athrawon i'r fath raddau fel na wariwyd y gyllideb ac ni chafodd tua £450,000 ei ddyrannu (ar sail y gyllideb wreiddiol ar gyfer y flwyddyn) a chafodd y cyllid hwnnw ei ailgyfeirio at y rhaglen gyllido Sefydlu a DPC.

Cwblhaodd y Cyngor gynllun peilot estynedig rhaglen Athro Siartredig am drydedd flwyddyn yn 2009-10, ac ym mis Tachwedd, cyflwynodd werthusiad annibynnol o'r cynllun peilot i Lywodraeth y Cynulliad ac achos busnes ar gyfer cyllido rhaglen wedi'i phrif-ffrydio. Rhagwelir ymateb yn rhan o Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o DPP.

- **Datblygiadau at y dyfodol**

Yn 2010-11, mae gwaith y Cyngor yn parhau i gael ei gwtogi gan y cyfyngiadau ariannol a osodir o ganlyniad i'r cap ar y ffi. Mewn blynyddoedd i ddod, teimlir effaith cau rhaglen gyllido datblygiad proffesiynol Llywodraeth y Cynulliad ar gostau gorbenion y Cyngor. Gallai hyn arwain at ohirio neu roi'r gorau i weithgarwch neu fesurau eraill i arbed costau oni bai bod cynnydd yn y ffi'n cael ei gytuno.

Mae dyfodol Athro Siartredig yn dibynnu ar benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i gyllido rhaglen wedi'i phrif-ffrydio, er bod y Cyngor yn ystyried ymagweddau amgen 'digost' pe na bai hyn yn digwydd.

Cododd y cyhoeddiad ar 2 Mehefin 2010 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr ei fod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddileu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr gwestiynau ynghylch bwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyderus o'i statws fel 'busnes hyfyw', gan fod penderfyniadau mewn perthynas â'i ddyfodol yn fater sydd wedi'i ddatganoli, a chymerwyd sicrwydd o ddatganiad yn y Cynulliad Cenedlaethol gan y Prif Weinidog (15 Mehefin 2010) ac o fynegiannau o fwriad a gafwyd gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. At hynny, cytunwyd ar gynlluniau ariannol ar gyfer 2011-12 gan y Cyngor er mwyn galluogi cyrraedd sefyllfa heb ennill na cholli. Felly, mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail 'busnes hyfyw'.

- **Talu credydwyr**

Dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn telerau ac amodau cytunedig, neu ymhen 30 diwrnod ar ôl derbyn y nwyddau, gwasanaethau neu anfoneb ddilys, p'un bynnag sydd hwyraf. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 99.0% o'r holl anfonebau o'r fath yn 2009-10 (94.7% yn 2008-09), ac ni thalwyd unrhyw Log Dyledion Masnachol ac nid oedd dim yn ddyledus mewn perthynas â thrafodion yn 2009-10.

- **Costau pensiwn**

Gweler yr Adroddiad Taliadau a Nodyn 1.10 ar gyfer manylion costau pensiwn y Cyngor.

- **Archwilio’r Cyfrifon**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Cyngor, a benodwyd dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

RSM Tenon oedd yr archwilwyr mewnol a benodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu.

- **Datgelu Gwybodaeth Archwilio**

Hyd eithaf gwybodaeth y Prif Weithredwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol ohoni. Cadarnheir bod yr holl gamau angenrheidiol y dylid eu cymryd i roi gwybod i’r Prif Weithredwr am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth o’r fath wedi’u cymryd.

- **Aelodau a chyfrifoldebau’r Cyngor**

Roedd gan y Cyngor 24 o aelodau ar ddiwedd y flwyddyn, oherwydd bod dau aelod wedi ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn, ac un aelod newydd yn ymuno. Yn ystod y flwyddyn weithredol, ceisiodd Gweinidogion Cymru enwebiadau ar gyfer aelodau penodedig (naw aelod) a phenodiadau uniongyrchol (pedwar aelod) i ymuno â'r Cyngor gan ddechrau ar 1 Medi 2010.

Ar gyfer y flwyddyn weithredol rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008, aelodau’r Cyngor oedd:

| | |
|---|---|
| Mal Davies | (Cadeirydd) Pennaeth, Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd |
| Jacquie Turnbull | (Dirprwy Gadeirydd) Ymgynghorydd addysg a hyfforddiant |
| Philip Bassett | Darlithydd, Deon Addysgu a Dysgu, Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru |
| Frank Bonello | Tiwtor a Swyddog Datblygu, Canolfan Addysgu'r Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| Tim Cox | Athro, Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg |
| Beth Davies | Pennaeth, Ysgol Gynradd Alltwen, Pontardawe |
| Elwyn Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Susan Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Roberto De Benedictis | Athro, Ysgol Gyfun Llangatwg, Castell-nedd |
| Sheila Drayton | Ymgynghorydd mewn datblygiad proffesiynol a sefydliadol |
| Michael Edwards | Pennaeth, Ysgol Gynradd Maes y Coed, Pontypridd |
| Ian Guy | Uwch gyfreithiwr (addysg), Castell-nedd Port Talbot |
| Angela Jardine | Athrawes, Ysgol Gynradd Gabalfa, Caerdydd |
| Gareth Jones | Cyn-Bennaeth, Ysgol Gynradd Derwen, Sir y Fflint |

| | |
|---|---|
| Hélène Mansfield | Pennaeth, Ysgol Gyfun Croesyceiliog, Cwmbrân |
| Gareth Matthewson | Cyn-Bennaeth, Ysgol Uwchradd, yr Eglwys Newydd, Caerdydd (o fis Gorffennaf 2009) |
| Jane Morris | Cyfarwyddwr dros dro, Llywodraethwyr Cymru |
| Suzanne Nantcurvis | Athrawes, Ysgol Dinas Brân, Sir Ddinbych |
| Sue O'Halloran | Pennaeth, Ysgol Gynradd Notais, Porthcawl |
| Hugh Pattrick | Is-gadeirydd Llywodraethwyr Cymru |
| Anne Robertson | Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, Archesgobaeth Caerdydd (ymddiswyddodd ym mis Gorffennaf 2009) |
| Jane Setchfield | Athrawes, Ysgol Uwchradd Llanedeyrn, Caerdydd |
| Cleo Sollars | Athrawes, Ysgol Gynradd St Therese, Port Talbot |
| Anna Spokes | Athrawes, Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams, Cil-y-coed |
| Sarah Stockford | Athrawes, Ysgol y Foryd, AALl Conwy |
| Jacky Tonge | Cyn-Brif Weithredwr, Cyngor Sir Powys (ymddiswyddodd ym mis Medi 2009) |

Disgwylir i aelodau'r Cyngor gymhwyso eu barn annibynnol i strategaeth, perfformiad ac atebolrwydd y Cyngor. Mae'n rhaid i aelodau weithredu'n gorfforaethol er budd y Cyngor, sydd yn ei dro yn gweithredu er lles ehangach athrawon, disgyblion a'r cyhoedd, yn hytrach nag er lles etholaeth benodol.

Mae gan aelodau gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnyddio cyllid cyhoeddus a’i incwm o ffioedd cofrestru.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau corfforaethol, mae'n rhaid i aelodau'r Cyngor:

- o sicrhau y cedwir at safonau uchel bob amser mewn gweinyddiaeth ac wrth wneud penderfyniadau;
- o sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y Cyngor drwy oruchwylio’r broses o gynhyrchu’r Cynllun Corfforaethol;
- o goruchwylio’r gwaith o gyflwyno canlyniadau a gynlluniwyd drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol cytunedig;
- o llunio strategaeth ar gyfer diogelu gwybodaeth bersonol a gedwir er mwyn cydymffurfio â chyfrifoldebau statudol y Cyngor;
- o sicrhau nad yw’r Cyngor yn gweithredu y tu hwnt i’w bwerau na’i swyddogaethau, p’un a ydynt wedi’u diffinio mewn statud ai peidio, neu drwy unrhyw gyfyngiadau ar wariant a nodir mewn unrhyw Femorandwm Ariannol.

Cynghorir aelodau ar y materion hyn fel arfer gan Brif Weithredwr y Cyngor a'i gynghorwyr cyfreithiol;

- o parchu penderfyniadau a pholisïau a wneir ar y cyd gan y Cyngor yn y maes cyhoeddus. Mae aelodau'n cefnogi'r egwyddor o golegoldeb ac yn cydnabod bod penderfyniadau y maent yn anghytuno â hwy wedi'u gwneud gan y rhan fwyaf o'r Cyngor.

° **Buddiannau eraill aelodau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr Buddiannau sy'n cael ei chadw yn swyddfeydd y Cyngor ac sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar gais.

° **Rhoddion elusennol**

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Cyngor roddion elusennol gwerth £300 yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig.

## Sylwadaeth y Rheolwyr

Ceir manylion llawn am gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion yn ystod 2009-10 yn yr Adroddiad Blynyddol cyhoeddedig. Dyma grynodeb o’r cyflawniadau hynny:

**Cynnal a hyrwyddo’r safonau uchaf o ymddygiad ac arferion proffesiynol**

- Cofrestru rhyw 39,000 o athrawon erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnwys bron 3,000 o bobl sydd wedi cofrestru o’u gwirfodd
- Llwyddo i ymestyn mynediad ar-lein i’r Gofrestr Athrawon Cymwys
- Ymgysylltu â'r proffesiwn a budd-deiliaid yn yr ymgynghoriad ynghylch Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig
- Cynnal hyder y cyhoedd a'r proffesiwn mewn addysgu drwy reoli'r gwaith achosion safonau proffesiynol ac addasrwydd

**Darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu**

- Ymateb ar ran y proffesiwn i ymgynghoriadau a chyfrannu i weithgorau ynghylch materion addysgu
- Ymgysylltu â'r proffesiwn a budd-deiliaid yn yr ymgynghoriad ar God Proffesiynol drafft

**Datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol ymysg athrawon**

- Cyflawni gwerthusiad positif a chefnogol o’r rhaglen beilot Athro Siartredig
- Dyrannwyd cyllid i dros 4,000 o athrawon i fynd i'r afael â'u hanghenion datblygiad proffesiynol unigol, drwy weinyddu Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Sicrhau bod rhyw 3,000 o athrawon yn nhair blynedd gyntaf eu gyrfaoedd wedi cael eu cefnogi drwy weinyddu Rhaglen Gyllido Sefydlu a DPC Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Darparu cyfleoedd i athrawon rannu eu dysgu a'u hymarfer proffesiynol mewn cynadleddau a drwy gyhoeddiadau.

**Cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu at gymdeithas**

- Cynnal proffil cadarnhaol yn y wasg ar gyfer athrawon ac addysgu
- Cynnal trydedd gynhadledd y Cynghorau Addysgu Rhyngwladol yn llwyddiannus
- Parhau i sefydlu Darlith Addysg Cymru fel digwyddiad allweddol yn y calendr addysg

**Darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy’n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno’i amcanion**

- Derbyn cymeradwyaeth i gyfrifon 2008-09 gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Cyflawni arbedion cynlluniedig o 6% yn ystod y flwyddyn ac arbedion sylweddol eraill yn ystod y flwyddyn
- Paratoi ar gyfer y cyfyngiadau ariannol a ragwelir yn 2010-11

## ° Risgiau ac ansicrwydd

Mae’r Cyngor yn cynnal Cofrestr Risg o bob risg a nodwyd, sy’n cael ei hadolygu’n chwarterol, a’i hadrodd i’r Pwyllgor Archwilio. Mae proses rheoli risg y Cyngor wedi’i hasesu gan archwiliad mewnol, sy’n darparu sicrwydd sylweddol wrth gefnogi’r ffordd y mae’n ymdopi â risgiau ac yn eu rheoli.

Nodir risgiau yn unol â’r amcanion corfforaethol, ac mae’r risgiau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Y risg, o ran enw da a modd gweithredu’r sefydliad, na fydd y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynnal a datblygu’r Gofrestr athrawon cymwys yng Nghymru, gan gynnwys cwblhau gwiriadau i gadarnhau addasrwydd ymgeiswyr i gofrestru;
- Y risg, o ran enw da’r sefydliad a’r gyfraith, bod y Cyngor yn methu â gweithredu’n briodol ei system agored a theg wrth ymgymryd â’i gyfrifoldebau safonau proffesiynol;
- Y risg, o ran cyllid, nad yw’r Gweinidog yn cytuno ar ffi gofrestru a argymhellir neu’n ei gosod am gyfnod penodol sy’n wahanol i’r cyfnod arfaethedig;
- Y risgiau, o ran enw da'r sefydliad ac ystyriaethau ariannol, sy'n gysylltiedig â chau'r rhaglen DPP;
- A’r risg, o ran modd gweithredu a chyllid, bod y Cyngor yn methu â darparu systemau cyllid, personél a gweinyddu effeithiol, effeithlon a chadarn i ategu’r gwaith o gyflawni ei amcanion.

Nodwyd rheolaethau mewn ymateb i’r risgiau allweddol hyn, ac i bob risg arall a nodir, gyda manylion y camau penodol i’w cymryd i reoli neu i leddfu’r risg. Caiff pob risg ei adolygu’n rheolaidd.

## ° Polisi Cyflogaeth

Mae’r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd sy’n ystyried cyfle cyfartal wrth recriwtio, datblygu a dyrchafu staff. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl lle maent yn meddu ar y sgiliau a’r galluoedd i gyflawni’r swydd. Ymgynghorir â chyflogeion a chânt eu hysbysu am faterion sy’n effeithio arnynt drwy fforymau staff, cyfathrebu ysgrifenedig, trafodaethau anffurfiol a, lle y bo’n briodol, cyfarfodydd gwybodaeth.

- **Absenoldeb oherwydd salwch**

Mae'r Cyngor yn monitro absenoldeb oherwydd salwch yn barhaus, gan adolygu absenoldebau cronnol a thymor hir fel ei gilydd. Yn 2009-10, cymerodd cyflogeion gyfanswm o 130 o ddiwrnodau salwch (179 o ddiwrnodau, 2008-09), yr oedd 24% o hyn ar gyfer salwch tymor hir (42%, 2008-09). Mae absenoldeb oherwydd salwch yn isel, gyda 5.7 diwrnod ar gyfartaledd fesul cyflogai (5.1 diwrnod yn 2008-09), o'i gymharu â chyfartaledd y sector cyhoeddus (9.7 diwrnod fesul cyflogai).

- **Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni chafwyd unrhyw achosion o golli data personol i'w hadrodd.

## Adroddiad Taliadau

Mae’r Adroddiad Taliadau yn rhoi manylion arferion darparu taliadau i aelodau’r Cyngor ac uwch aelodau staff:

- **Contractau gwasanaeth**

Penodir staff yn unol â pholisi Recriwtio a Dethol y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud penodiadau o ran teilyngdod, ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond sydd hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae penodiadau’r uwch staff y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn yn rhai penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i’r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

- **Taliadau'r aelodau**

Y Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd yw’r unig aelodau o’r Cyngor a allai dderbyn tâl. Nid oes gan y naill aelod na’r llall yr hawl i fod yn aelod o gynllun pensiwn y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Mr Mal Davies i wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor. Fel pennaeth mewn swydd, ymdrinnir â’r penodiad hwn fel secondiad ac ad-delir cyfran o’i gyflog i’w gyflogwr. Nid yw Mr Davies yn derbyn unrhyw daliadau’n uniongyrchol na buddiannau mewn nwyddau.

Treuliau yn unig a delir i holl aelodau eraill y Cyngor, gan gynnwys ad-dalu costau a ddaw i’w rhan wrth deithio i gyfarfodydd a thelir hefyd costau athrawon cyflenwi, neu gostau cyfwerth, i’r cyflogwyr, fel sy’n briodol. Nodir y gwariant hwn fel costau Aelodau yn Nodyn 5 (costau rhaglen Uniongyrchol).

| | **2009-10<br>£’000** | **2008-09<br>£’000** |
|---|---|---|
| Ad-dalu costau i gyflogwr - Cadeirydd:<br>Mr Mal Davies | 38 | 36 |
| Taliadau’r Dirprwy Gadeirydd:<br>Mrs Jacquie Turnbull | 7 | 8 |

Mae’r wybodaeth uchod yn amodol ar archwiliad.

- **Taliadau uwch aelodau staff**

Roedd cyflog, hawliau pensiwn a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn nwyddau ar gyfer swyddogion uchaf y Cyngor fel a ganlyn:

| | Cyflog, 2009-10 £'000 | Cyflog, 2008-09 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn gysylltiedig â phensiwn yn 60 oed, £'000 | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31/03/10 a chyfandaliad cysylltiedig, £'000 | CETV[1] ar 31/03/09 £'000 | CETV ar 31/03/10 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G Brace<br>Prif Weithredwr | 75-80 | 80-85 | 2.5-3.0 a chyfandaliad 3.0-3.5 | 30-35 a chyfandaliad 75-80 | 635 | 729 | 52 |
| H Llewellyn<br>Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon) | 60-65 | 60-65 | 1-1.5 a chyfandaliad 3.5-4.0 | 10-15 a chyfandaliad 35-40 | 154 | 180 | 16 |
| J Evans<br>Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) | 60-65 | 50-55 | 2.5-3.0 a chyfandaliad 7.5-8.0 | 15-20 a chyfandaliad 55-60 | 264 | 326 | 45 |

[1] CETV: Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Cyfatebol

Mae'r wybodaeth uchod yn amodol ar archwiliad.

- **Cyflog**

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth; tâl perfformiad neu fonysau; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliad neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan y Cyngor ac felly cânt eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, mae cyflogau'r holl staff yn seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae taliadau'r Prif Weithredwr yn cael eu hadolygu'n flynyddol, yn seiliedig ar berfformiad fel y pennir gan y Pwyllgor Taliadau. Mae'r Pwyllgor Taliadau'n is-bwyllgor a benodir gan y Pwyllgor Gweithredol, ac mae'n cynnwys Cadeirydd y Cyngor a dau aelod arall.

- **Buddiannau mewn nwyddau**

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y Cyngor ac a ystyrir yn fuddiannau trethadwy yn llygaid Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ni thalwyd unrhyw fuddiannau mewn nwyddau yn ystod y flwyddyn.

- **Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSP). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun budd-daliadau diffiniedig: naill ai "cynllun cyflog terfynol" (**classic, premium** a **classic plus**); neu gynllun "gyrfa gyfan" (**nuvos**). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau sy'n dod i mewn i'r cynllun o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd-dal diffiniedig priodol neu ymuno â phensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' o safon â chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn cael eu gosod ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun **classic** a 3.5% ar gyfer y cynllun **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Mae buddiannau yn y cynllun '**classic**' yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed i enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun premium. Yn wahanol i'r cynllun **classic**, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. **Mae'r** cynllun **classic plus** yn ei hanfod yn hybrid, gyda buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **classic**, a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premium**. Yn y cynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bydd yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif y pensiwn a enillwyd ei gredydu gyda 2.3%o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r RPI. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cymudo) i ddarparu cyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn buddiolwyr yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn buddiolwyr a ddewisir gan y cyflogai o ddetholiad o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os byddant yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo/iddi orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**.

Ceir manylion pellach ynghylch trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan ganlynol: www.civilservice-pensions.gov.uk.

- **Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV)**

Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraidd o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn

amodol priod sy’n daladwy o’r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo’r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â’r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i’w aelodaeth lawn o’r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae’r datgeliad yn gymwys iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a’r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ddichonadwy mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth ar y Lwfans Gydol Oes, a allai fod yn ddyledus pan godir buddiannau pensiwn.

- **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn CETV a gyllidir yn ei hanfod gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio’r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

- **Iawndal am golli swydd**

Ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd yn ystod y flwyddyn.

Gary Brace
Prif Weithredwr
24 Awst 2010

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr**

Dan Baragraff 14 Atodlen 1 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, mae gofyn i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o gyflwr y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn enwedig i:

- Gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol; a
- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Nodir cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen 'Managing Public Money'.

**Datganiad ar Reolaeth Fewnol**

**Cwmpas cyfrifoldeb**

Fel Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu cyllid cyhoeddus ac asedau'r Cyngor yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yn y ddogfen 'Managing Public Money'.

Mae trefniadau atebolrwydd yn cynnwys goruchwylio'r adolygiad o berfformiad chwarterol gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor. Caiff yr adroddiad ei rannu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gweithgareddau a gyllidir yn gyhoeddus. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd adolygu bob chwe wythnos gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Diben y system reolaeth fewnol**

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg rhag peidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ond darparu sicrwydd rhesymol, nid llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Bu'r system reolaeth fewnol yn ei lle yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

**Gallu i ymdopi â risg**

Mae Strategaeth Rheoli Risg yn ei lle. Fel y Prif Weithredwr, mae'n gyfrifoldeb arnaf fi, gyda chefnogaeth fy nau uwch reolwr gweithredol, i sicrhau bod gallu'r Cyngor i ymdopi â risg yn ddigonol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad chwarterol o'r Gofrestr Risg gan y Tîm Rheoli i gadarnhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'n busnes. Mae archwilwyr mewnol wedi asesu'r Cyngor fel sefydliad "a ddiffinnir gan risg", o ran ei aeddfedrwydd risg. Mae proffil risg y Cyngor yn cynnwys risgiau gweithredol ac ariannol yn bennaf. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad annibynnol o ddogfennau rheoli risg y Cyngor, a fu'n cynnwys arsylwi adolygiad chwarterol y tîm rheoli o'r gofrestr risgiau. Rhoddodd hyn sicrwydd pellach ynghylch y prosesau rheoli risg sydd ar waith, a bu hefyd yn gweithredu fel ymarfer hyfforddi i'r Tîm Rheoli adfyfyrio ar flas y Cyngor am risgiau, y broses adnabod risgiau a'r ymateb y cytunwyd arno.

**Y fframwaith risg a rheoli**

Mae'r fframwaith risg a rheoli'n cynnwys cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu bob chwarter gan uwch swyddogion, ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Mae gan y Pwyllgor Archwilio gylch gorchwyl i oruchwylio polisi Rheoli Risg y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys manylion yr holl fygythiadau allweddol i gyflawni'r amcanion corfforaethol y cytunir arnynt yn y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol. Rhoddir sgôr i bob risg allweddol ar sail ei heffaith bosibl ar fusnes y Cyngor a'i thebygolrwydd o ddigwydd. Mae'r strategaeth reoli'n ymwneud â derbyn, gostwng neu

drosglwyddo risgiau mewn ymateb i hynny. Mae camau penodol gofynnol yn cael eu nodi, eu neilltuo i uwch reolwr a'u gweithredu erbyn terfynau amser penodol. Yn dilyn argymhellion yr archwilwyr mewnol, mae'r Gofrestr Risg bellach yn cynnwys gwerthusiad o lefel y "risg weddilliol" ar ôl cymhwyso'r rheolaeth. Adroddir ar gynnydd a nodir risgiau a chamau rheoli newydd yn ystod yr arolygiad rheolaidd gan yr uwch Dîm Rheoli. Yn ogystal, cyflwynir y Gofrestr Risg i'r Cyngor i'w hystyried o leiaf unwaith bob blwyddyn ariannol. Yn ystod y flwyddyn, nodwyd nifer sylweddol o risgiau newydd, a dyfeisiwyd ymatebion y tîm rheoli, o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i gau'r rhaglen gyllido DPP.

Rheolir risgiau ariannol gan "Lawlyfr Ariannol' manwl, sy'n nodi gweithdrefnau a chyfrifoldebau a lefelau dirprwyo.

Mae'r cynllun Parhad Busnes yn mynd i'r afael â risgiau allweddol mewn perthynas ag adeiladau a systemau gwybodaeth. Eleni, roedd prawf senario gan y Tîm Adfer yn Sgil Trychineb yn canolbwyntio ar golli uwch staff allweddol. Mae'r prawf senario'n cael ei ailbrofi bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n gyforiog o ddata ynghylch athrawon. Cynhwysir data yng nghronfeydd data'r Cyngor, ond caiff ei rannu gydag athrawon a chyflogwyr unigol o bryd i'w gilydd at ddibenion penodol. I fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch data unigolion mewn sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus, mae trefniadau diogelu data'r Cyngor yn cynnwys:

- o caiff gwybodaeth ynghylch athrawon a rannwyd gydag ALlau ei hanfon drwy e-bost mewn ffeiliau a ddiogelir gan gyfrinair yn hytrach nag ar ddisg drwy'r post;
- o nid yw adroddiadau tymhorol i ALlau'n cynnwys unrhyw fanylion sy'n fodd i adnabod athrawon;
- o mae systemau electronig diogel ar waith ar gyfer rhannu manylion Sefydlu athrawon gydag ALlau;
- o caiff dogfennau adnabod i ategu ceisiadau i gofrestru, e.e. pasbortau, trwyddedau gyrru, eu dychwelyd drwy ddosbarthiad 'Special Delivery.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwaith o gyflwyno mynediad i'r Gofrestr yn raddol dros y we yn sicrhau y gallai athrawon unigol, cyflogwyr a'r cyhoedd ond cael mynediad i'r lefelau o ddata y mae ganddynt hawl i'w weld o dan ddeddfwriaeth.

Mae diogelwch gwybodaeth yn cael ei ategu gan y gwaith o gasglu tapiau wrth gefn y Cyngor bob wythnos a bob mis gan drydydd parti i'w storio oddi ar y safle.

**Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Prif Weithredwr y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol ei lywio gan y canlynol:

- o gwaith yr archwilwyr mewnol, a grynhoir yn eu hadroddiadau rheolaidd a'u hadroddiad blynyddol sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y Cyngor, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;

- o rheolwyr gweithredol y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a

- o sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system yn ei le.

Roedd gwelliannau allweddol eleni'n cynnwys:

- pedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio;

- cyflwyno adroddiadau i bob Pwyllgor Archwilio ynghylch unrhyw weithred tendr sengl a chofnodion ar y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch;

- adolygwyd y Polisi Anrhegion a Lletygarwch yn sylweddol yn ystod y flwyddyn er mwyn leddfu risg o ran enw da'r sefydliad;

- ymarferwyd y gwaith o gyflwyno cyfrifyddu yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wrth gynhyrchu cyfrifon drafft 2008-09 yn y fformat newydd ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch gweithredu'r IFRS yn llawn ar gyfer cyfrifon 2009-10.

Yn arbennig, caiff Rheolau Sefydlog y Cyngor eu hadolygu yn ôl y gofyn, gydag unrhyw ddiwygiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Yn yr un modd, caiff y Llawlyfr Ariannol ei adolygu'n barhaus, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n goruchwylio unrhyw ddiwygiadau. Adolygwyd y Rheolau Sefydlog a'r Llawlyfr Cyllid yn ystod y flwyddyn yn unol â'r prosesau hyn.

**Problemau rheolaeth fewnol arwyddocaol**

Nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw broblemau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Gary Brace
Prif Weithredwr
24 Awst 2010

## TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 dan baragraff 14 Atodlen 1 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau, y nodir ei fod wedi'i archwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r archwilydd

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad Taliadau, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Byddaf yn rhoi fy marn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno. Nodaf, yn fy marn i, a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r Adroddiad Taliadau, a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Nodaf hefyd p'un a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Byddaf hefyd yn eich hysbysu os wyf o'r farn nad yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw'r wybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru â chanllawiau Trysorlys EM, a nodaf os nad yw'n adlewyrchu hyn. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen yr wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y rhan o'r Adroddiad Taliadau nas archwiliwyd a Sylwadaeth y Rheolwyr. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon), a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un ai'r polisïau cyfrifyddu hynny sydd fwyaf priodol i amgylchiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio, boed hynny drwy dwyll neu wall a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru, o sefyllfa Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2010 a'i warged a'i lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru; ac
- mae gwybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r Adroddiad Taliadau, a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Barn Archwilio ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso ar y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gillian Body
Archwilydd Cyffredinol Cymru
14 Medi 2010

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ

# CYFRIFON BLYNYDDOL

**Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr**
**ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010**

| | Nodyn | £'000 | 2008-09 Wedi'i ailddatgan £'000 |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 3 | 8,721 | 9,441 |
| Ffioedd cofrestru | | 1,735 | 1,735 |
| Incwm o gofrestriadau athrawon am wiriadau datgeliadau SCT | | 37 | 43 |
| Rhyddhawyd o Gronfa Grant y Llywodraeth | 16 | 3 | 4 |
| Incwm arall | | 6 | 1 |
| **Cyfanswm incwm** | | **10,502** | **11,224** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau staff | 4 | 1,299 | 1,343 |
| Costau rhaglen uniongyrchol | 5 | 432 | 470 |
| Costau rhaglen DPP | 6 | 2,193 | 2,518 |
| Costau rhaglen Sefydlu a DPC | 7 | 5,849 | 6,204 |
| Costau gweithredu eraill | 8 | 447 | 582 |
| Dibrisiad | 10 | 36 | 39 |
| Amorteiddiad | 11 | 29 | 20 |
| Cost dybiannol cyfalaf | | 18 | 14 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **10,303** | **11,190** |
| **(Diffyg)/ Gwarged ar weithgareddau cyffredin** | | **199** | **34** |
| Llog derbyniadwy | 9 | 7 | 45 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | | 18 | 14 |
| **Incwm net ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd** | | **224** | **93** |

Mae'r holl weithgareddau a gyllidir gan y Cyngor yn parhau. Caeodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r rhaglen gyllido DPP o 31 Mawrth 2010. Am fanylion pellach, gweler Nodyn 6.

Ailosodwyd ffigyrau cymharol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 24 i 39 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 Wedi'i ailddatgan | 1 Ebrill 2008 Wedi'i ailddatgan |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 10 | 45 | 66 | 92 |
| Asedau Anniriaethol | 11 | 46 | 51 | 36 |
| Asedau Ariannol | | - | - | - |
| **CYFANSWM ASEDAU ANGHYFREDOL** | | 91 | 117 | 128 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 1,243 | 1,125 | 742 |
| Asedau Ariannol | | - | - | - |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 2,233 | 1,846 | 3,116 |
| **CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL** | | 3,476 | 2,971 | 3,858 |
| **CYFANSWM ASEDAU** | | **3,567** | **3,088** | **3,986** |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 14 | (2,846) | (2,683) | (3,670) |
| Darpariaeth ar gyfer terfynu: costau staff | 15 | (95) | - | - |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | (2,941) | (2,683) | (3,670) |
| **ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU** | | **626** | **405** | **316** |
| **CYLLIDWYD GAN:** | | | | |
| **GYFALAF A CHRONFEYDD** | | | | |
| Cronfa Grant y Llywodraeth | 16 | 4 | 7 | 11 |
| Cronfa etholiadau | 17 | 59 | 39 | 19 |
| Cronfa safonau proffesiynol | 17 | 75 | 30 | 10 |
| Cronfa cyfalaf | 17 | 30 | 30 | 230 |
| Cronfa gyffredinol | | 458 | 299 | 46 |
| **CYFANSWM CYFALAF A CHRONFEYDD** | | **626** | **405** | **316** |

Gary Brace
Prif Weithredwr
24 Awst 2010

Mae'r nodiadau ar dudalennau 24 i 39 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

## Datganiad Llifoedd Arian
## ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2009-10<br>£'000 | 2008-09<br>Wedi'i ailddatgan<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | 18 | 398 | (1,267) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | 9 | 5 | 45 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 10 | (15) | (11) |
| Prynu Asedau Anniriaethol | 11 | (1) | (37) |
| **Cynnydd/ (Gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod** | | **387** | **(1,270)** |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill 2009** | | **1,846** | **3,116** |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2010** | | **2,233** | **1,846** |

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

| | |
|---|---|
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn 2008-09** | |
| Balans ar 31 Mawrth 2008 | 346 |
| Effaith newidiadau o dan IFRS | (30) |
| Balans ar 1 Ebrill 2008 (wedi'i ailddatgan) | 316 |
| (Diffyg)/ Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 93 |
| Trosglwyddiadau (o)/ i gronfeydd dynodedig | (4) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009 (Nodyn 20)** | **405** |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn 2009-10** | |
| (Diffyg)/ Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 224 |
| Trosglwyddiadau (o)/ i gronfeydd dynodedig | (3) |
| **Balans terfynol ar 31 Mawrth 2010** | **626** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 24 i 40 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

**Nodiadau i'r cyfrifon**

**1. Polisïau cyfrifyddu**

*1.1 Confensiwn Cyfrifyddu*

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (iFReM)* 2009-10*, a* gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn yr iFReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cânt eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector gyhoeddus. Lle bydd yr iFReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai ef yw'r mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (y Cyngor) er mwyn rhoi golwg gwir a theg. Caiff y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor eu disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a gaiff eu hystyried yn hanfodol i'r cyfrifon.

*1.2 Incwm ffioedd cofrestru*

Mae'r flwyddyn gofrestru flynyddol yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth gyda'r ffi'n ddyledus ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Gofynnir i'r ffi gael ei thalu'n llawn, waeth pryd yn union yn ystod y flwyddyn y mae athro/athrawes yn cofrestru gyda'r Cyngor – ni roddir gostyngiad am gofrestru am ran o'r flwyddyn.

Cafodd incwm ffioedd ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail gronnol, gydag unrhyw ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11 yn cael eu trin fel incwm wedi'i dalu ymlaen llaw a chânt eu cofnodi ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaeth.

*1.3 Gwariant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)*

Caiff gwariant DPP ei gydnabod ar sail gweithgarwch a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd cais amdano erbyn dyddiad penodol. Pan fydd cefnogaeth DPP wedi'i chynnig ond na dderbyniwyd cais erbyn y dyddiad hwnnw, cofnodir y symiau hyn fel ymrwymiadau.

*1.4 Gwariant Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)*

Caiff gwariant rhaglen Sefydlu a DPC ei gydnabod ar sail y tymor academaidd pan gwblhawyd y gweithgaredd hyfforddi. Caiff gwariant ac incwm grant sy'n ddyledus ar gyfer tymor y Gwanwyn ei gynnwys o dan Groniadau (gwariant grant sy'n ddyledus i ysgolion) a symiau Masnach sy'n dderbyniadwy (grant sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) gan ddibynnu ar amser derbyn y taliad a grantiau perthnasol.

*1.5 Asedau Anghyfredol*

Diffinnir asedau anghyfredol fel unrhyw ddarn unigol o offer sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) sydd â bywyd economaidd/ gweithredol amcangyfrifedig o fwy na blwyddyn. Lle y tueddir i ystyried cydrannau unigol fel grŵp, caiff y rhain eu trin fel asedau cyhyd â bod eu gwerth at ei gilydd yn fwy na'r trothwy cyfalafu.

Mae asedau anghyfredol wedi'u prisio ar sail cost hanesyddol ar ddiwedd y flwyddyn am nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio'n berthnasol ym marn y Cyngor.

*1.6 Dibrisiad*

Darperir dibrisiad ar bob ased anghyfredol ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu'r gost, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased, yn gyfartal dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

- o Caiff yr holl offer trydanol, gan gynnwys cyfrifiaduron ac offer swyddfa, ei ddibrisio ar sail linol dros dair blynedd; a
- o Chaiff y dodrefn a'r gosodion eu dibrisio ar sail linol dros bum mlynedd.

Ym mhob achos, bydd dibrisiad yn dechrau o'r mis ar ôl eu prynu.

*1.7 Asedau Anniriaethol*

Cyfalafir gwaith datblygu meddalwedd a thrwyddedau sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) ac sydd â bywyd economaidd/gweithredol o fwy nag un flwyddyn.

Darperir amorteiddiad ar asedau anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig:

- o Caiff y gwaith o ddatblygu'r gronfa ddata ei amorteiddio ar sail linol dros dair blynedd; a
- o Chaiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio ar sail linol dros dair blynedd.

Yn y ddau achos, bydd yr amorteiddio'n dechrau o'r mis ar ôl eu prynu.

*1.8 Grantiau'r Llywodraeth*

Mae'r Cyngor yn cael incwm grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweinyddu'r rhaglen gyllido DPP, y rhaglen gyllido Sefydlu a DPC, i gefnogi'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwys, gweinyddu Apeliadau Sefydlu a hefyd ar gyfer cyllido gwiriadau'r SCT ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso. Yn ystod cyfnod cynllun peilot y rhaglen Athro Siartredig, Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd cyllidwr y cynllun peilot, hefyd, yn cefnogi'n benodol gostau'r rhaglen a addysgir a chostau gweinyddu. Caiff grantiau a dderbynnir eu credydu i'r Cyfrif Gwariant Net yn y flwyddyn pan dderbynnir hwy (ar sail croniadau), a chredydir unrhyw falans nas gwariwyd i'r incwm gohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn.

O gyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail arian parod, caiff incwm grant a ddefnyddir ar gyfer gwariant cyfalaf ei gredydu i Gronfa Grant y Llywodraeth. Gwneir trosglwyddiadau perthnasol o'r gronfa honno, sy'n gyfwerth â'r costau dibrisio blynyddol ar asedau a gafaelwyd gyda chyllid cymorth grant, i'r Cyfrif Gwariant Net wrth i'r asedau cyfalaf gael eu defnyddio. Er 2007-08, derbyniwyd cyllid grant ar sail croniadau, ac oherwydd nad oes unrhyw incwm gohiriedig yn codi, nid yw Cronfa Grant y Llywodraeth yn cael ei defnyddio bellach. Bydd y gronfa hon yn gostwng i sero yn 2010-11.

*1.9 Stocrestrau*

Mae'r Cyngor yn cadw stocrestrau o gyhoeddiadau. Nid oes gan y rhain unrhyw werth gwireddadwy net ac o ganlyniad, mae'r holl wariant cysylltiedig yn ystod y flwyddyn yn cael ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

*1.10 Costau pension*

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol yn cael eu cynnwys yn narpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn yr Adroddiad Taliadau a Nodyn 4. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau'n cael eu hariannu ac maent yn anghyfrannol ar wahân i fuddion dibynyddion. Mae'r Cyngor yn cydnabod costau disgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a gyfrifir ar sail gronnol. Rhwymedigaeth y PCSPS yw talu unrhyw fuddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

*1.11 Treth ar Werth (TAW)*

Nid yw'r Cyngor wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Nodir yr holl wariant a'r pryniadau asedau sefydlog yn y cyfrifon gan gynnwys TAW, gan na ellir ei adennill.

*1.12 Cost Cyfalaf*

Mae tâl tybiannol, a gyfrifir yn unol ag arweiniad y Trysorlys fel 3.5% (3.5% yn 2008-09) o gyfartaledd y cyfalaf a ddefnyddiwyd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010, wedi'i gynnwys fel cost weithredol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

*1.13 Prydlesi Gweithredu*

Codir gwariant ar brydlesi eiddo ar y Cyfrif Gwariant Net ar sail costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Cyfrif Gwariant Net mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

*1.14 Rhagdaliadau*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (cost sy'n gyfwerth â £100 bob mis) ar gyfer cydnabod rhagdaliadau. Ac eithrio ar gyfer rhagdaliadau mis llawn, bydd y tâl a amlinellwyd yn dechrau o'r mis ar ôl y taliad.

*1.15 Cronfeydd dynodedig*

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gallai sefydlu cronfeydd dynodedig at ddibenion penodol yn y dyfodol. Rhoddir manylion y cronfeydd dynodedig presennol yn Nodyn 15 y Cyfrifon hyn.

*1.16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau*

Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer yr holl oblygiadau cyfreithiol neu ffurfiannol na ellir eu rhagnodi o ran amser na swm ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r goblygiad. Yn unol ag FRS 12, cydnabyddir darpariaethau dim ond lle bydd hi'n debyg y caiff mantais economaidd ei drosglwyddo, a lle gellir amcangyfrif y swm.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer y costau staff sydd ynghlwm wrth derfynu'r rhaglen DPP.

*1.17 Adrodd cylchrannol*

At ddibenion adrodd cylchrannol, mae'r Cyngor wedi nodi dwy ffrwd drafodion mewn perthynas â gweithgarwch a gyllidir gan y Cyngor a gweithgarwch a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dadansoddwyd yr holl incwm a gwariant yn y ddau grŵp hyn o fewn y nodiadau penodol i'r Cyfrifon.

*1.18 Buddion gweithwyr*

Yn ôl y gofyn, mae'r Cyngor yn cydnabod cost buddion gweithwyr, gan gynnwys:

- Buddion gweithwyr tymor-byr, sef "cost" gwyliau blynyddol heb eu cymryd erbyn diwedd y flwyddyn; a
- Buddion ôl-gyflogaeth, mewn perthynas â buddion terfynu swyddi.

**2. <u>Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf</u>**

Mae'r Cyngor wedi paratoi ei gyfrifon blynyddol cyn hyn yn unol â UK GAAP, ond yn y dyfodol, gofynnir iddo baratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). 1 Ebrill 2008 yw'r dyddiad trosglwyddo a osodwyd ar gyfer cydymffurfio ag IFRS; dyna sy'n esbonio'r balansau sydd wedi'u hailddatgan mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol a adroddwyd yn y cyfrifon hyn.

*Addasiadau IFRS*

O dan IAS 19 (Buddion gweithwyr), gofynnir i'r Cyngor gydnabod y budd byrdymor i weithwyr cyflogedig mewn perthynas â gwyliau blynyddol heb eu cymryd neu hawliau cyflogaeth cronedig eraill ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

| ***Cronfa Incwm a Gwariant*** | **£’000** |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2008 o dan UK GAAP | 76 |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| IAS19 – Buddion gweithwyr | (30) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2008 o dan IFRS** | **46** |
| Gwariant Net ar gyfer 2007-08 o dan UK GAAP | (256) |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| IAS 19 – buddion gweithwyr | (30) |
| **Gwariant Net ar gyfer 2007-08 o dan IFRS** | **(286**) |
| ***Gwariant Net ar gyfer 2008-09*** o dan UK GAAP | 103 |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| IAS 19 - Symudiad mewn buddion gweithwyr | (10) |
| **Gwariant Net ar gyfer 2008-09 o dan IFRS** | **93** |

***Adrodd cylchrannol***

Mae IFRS 8 (Cylchrannau gweithredu) hefyd yn gofyn i’r Cyngor adrodd gwybodaeth ariannol fesul cylchran ar yr un sail ag y mae’r wybodaeth honno’n cael ei hystyried gan Dîm Rheoli’r Cyngor wrth ddyrannu adnoddau neu asesu perfformiad. Yn nodweddiadol, caiff perfformiad ariannol yn ôl gweithgaredd ei ystyried o ran ei ffynhonnell ariannu, boed hynny’n hunangyllidol, hynny yw, drwy’r ffi gofrestru, neu wedi’i gyllido gan grant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, mae nodiadau i’r Cyfrif Gwariant Net wedi dadansoddi balansau rhwng y ddwy gylchran hon.

Noder: Cwblheir y broses o adolygu cylchrannol ar sail gwariant yn unig. Ni ddadansoddir unrhyw benawdau’r Datganiad i’r Sefyllfa Ariannol sy’n ategu gwaith adolygu a phenderfynu’r Tîm Rheoli, ac felly nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno yma.

**Cysoni**

| | **£’000** |
|---|---|
| Gwarged, yn ôl y Cyfrifon Rheoli, Mawrth 2010 | 1,013 |
| Addasiadau: | |
| Croniadau LlCC ar ddiwedd y flwyddyn (net) | (777) |
| Croniadau’r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn (net) | (51) |
| Addasiad IFRS | 39 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd, yn ôl y Datganiadau Ariannol | **224** |

**3. Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru**

| Grant | 2009-10<br>£'000 | 2008-09<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 8,919 | 8,423 |
| Grant sy'n ddyledus ar gyfer y rhaglen Sefydlu a DPC/DPP | - | 1,018 |
| Grant a ddygwyd ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf | (198) | - |
| **Grant a gredydwyd i'r Cyfrif Gwariant Net** | **8,721** | **9,441** |

**4. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig**

| | Cyngor | Gweithgareddau a gyllidwyd gan y Cynulliad | | | **2009-10** | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol yn unig | Eraill | Staff a gyflogir yn barhaol | CYFAN-SWM | **CYFAN-SWM** | **CYFAN-SWM** |
| | **£'000** | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau | **575** | 11 | 447 | **458** | **1,033** | **1,067** |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **41** | - | 34 | **34** | **75** | **76** |
| Costau Pensiwn | **105** | - | 86 | **86** | **191** | **200** |
| **Cyfanswm** | **721** | 11 | 567 | **578** | **1,299** | **1,343** |

Cynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan Actiwari'r Cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2009-10, roedd cyfraniadau cyflogwr o £190,825 yn daladwy i'r PCSPS (2008-09, £200,892) ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7 a 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyfan. O 2010-11, bydd y cyfraddau rhwng 16.7% a 24.3%. Caiff y cyfraddau cyfraniadau eu gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2009-10, i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Caiff cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ni ddewiswyd yr opsiwn hwn gan yr un aelod o staff y Cyngor, ac felly ni wnaed unrhyw gyfraniadau cyflogwr.

Nid oedd unrhyw achosion o ymddeol ar sail afiechyd.

### 4.2 Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir

Cyflogwyd 30.5 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2010, fel a ganlyn

| | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngor | Gweithgareddau a gyllidwyd gan y Cynulliad | | | |
| | Staff a gyflogwyd yn barhaol yn unig **CYFANSWM** | Eraill | Staff a gyflogwyd yn barhaol | **CYFANSWM** | **CYFANSWM TERFYNOL** |
| Amcan 1: codi statws addysgu drwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol | **9.4** | - | 1.9 | **1.9** | **11.3** |
| Amcan 2: darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu | **0.9** | - | - | **-** | **0.9** |
| Amcan 3: datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol ymysg athrawon | **-** | 0.5 | 11.0 | **11.5** | **11.5** |
| Amcan 4: cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu i gymdeithas | **1.5** | - | - | **-** | **1.5** |
| Amcan 5: darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno'i amcanion | **5.3** | - | - | **-** | **5.3** |
| **CYFANSWM** | **17.1** | **0.5** | **12.9** | **13.4** | **30.5** |

Nodir manylion cyflogau a hawliau pensiwn aelodau ac uwch staff y Cyngor yn yr Adroddiad Taliadau, ar dudalen 8 yn y datganiadau ariannol hyn.

### 5. <u>Costau rhaglen uniongyrchol</u>

| | 2009-10 | | | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 Cyngor | £'000 LlCC | £'000 CYFAN-SWM | £'000 |
| Costau aelodau | 68 | - | 68 | 58 |
| Cynnal a datblygu'r gronfa ddata | 13 | 2 | 15 | 9 |
| Ffïoedd cyfreithiol | 174 | - | 174 | 214 |
| Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol | 37 | 56 | 93 | 98 |
| Costau Cyfieithu | 9 | - | 9 | 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau argraffu, postio a deunydd hyrwyddo | 70 | 3 | 73 | 81 |
| **Cyfanswm** | **371** | **61** | **432** | **470** |

Mae costau rhaglen uniongyrchol yn cynnwys gwariant a gafwyd yn benodol wrth ymgymryd â dyletswyddau craidd y Cyngor. Gellir priodoli'r gostyngiad mewn costau rhaglen uniongyrchol i'r ffaith bod gweithgarwch cynlluniedig wedi'i ohirio neu ei ddileu, gan gynnwys arbedion yn y ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol.

**6. <u>Costau rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)</u>**

| Holl wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2009-10<br>£'000 | 2008-09<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddiaeth | 76 | 95 |
| Lledaenu | 21 | 48 |
| Bwrsarïau datblygiad proffesiynol | 1,808 | 1,792 |
| Prosiect ymchwil gweithredol | 2 | 15 |
| Cyfnodau sabothol athrawon | 35 | 125 |
| Rhwydweithiau proffesiynol | 23 | 153 |
| Bwrsarïau grŵp | - | 70 |
| Costau cynllun peilot Athro Siartredig | 133 | 220 |
| Darpariaeth ar gyfer terfynu'r rhaglen: costau staff (fel y'i diffinnir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil) | 95 | |
| **Cyfanswm** | **2,193** | **2,518** |

Mae costau'r rhaglen DPP yn cynnwys y gwariant mewn perthynas â'r cynllun grantiau DPP, costau lledaenu, costau gweinyddol a gwariant mewn perthynas â chynllun peilot y prosiect Athro Siartredig.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'n dod â'r cynllun grant DPP i ben ar ddiwedd y flwyddyn. Mewn enw, mae hyn gyfystyr â gweithred sydd wedi'i ddirwyn i ben, ond oherwydd bod yr holl weithgarwch a gyllidir gan LlCC wedi'i gynllunio i fod heb ennill na cholli (sef lle mae'r incwm yn cyfateb yn union i'r gwariant), ni wnaed datgeliad ar wahân ar y Cyfrif Gwariant Net. Er gwybodaeth, yr incwm a gwariant manwl yw fel a ganlyn:

| | 2009-10<br>£000's | 2008-09<br>£000's |
|---|---|---|
| Incwm | 2,502 | 2,831 |
| Costau staff | 291 | 295 |
| Gwariant rhaglen (fel y nodir uchod) | 2,193 | 2,518 |
| Dibrisiad | 18 | 18 |
| Gwariant | 2,502 | 2,831 |

Rhagwelir gwariant o hyd yn ystod 2010-11, gan gynnwys talu hawliadau grant terfynol DPP, costau staff a gweinyddu yn ystod y flwyddyn a chostau'r terfyniad.

### 7. Costau rhaglen Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)

| Holl wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2009-10 £'000 | 2008-09 £'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddiaeth | 64 | 76 |
| Gwariant grant Sefydlu | 4,046 | 4,369 |
| Gwariant grant DPC Blwyddyn 1 | 914 | 893 |
| Gwariant grant DPC Blwyddyn 2 | 825 | 866 |
| **Cyfanswm** | **5,849** | **6,204** |

Mae gwariant yn cynnwys costau rhaglen, sef grantiau sy'n cefnogi athrawon yn nhair blynedd gyntaf eu gyrfaoedd, a'r costau gweinyddol sydd ynghlwm wrth redeg y rhaglen.

Mae'r gostyngiad mewn gwariant rhaglen yn adlewyrchu'r gostyngiad yn niferoedd (a dilyniant wedi hynny) yr Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n addysgu yng Nghymru.

### 8. Costau gweithredu eraill

| | 2009-10 | | | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 Cyngor | £'000 LlCC | £'000 CYFANSWM | £'000 |
| Treuliau Swyddogion | 15 | - | 15 | 58 |
| Hyfforddi a recriwtio | 13 | - | 13 | 27 |
| Rhent ac Ardrethi | 73 | 10 | 83 | 81 |
| Tâl am wasanaethau a chyfleustodau | 24 | 3 | 27 | 27 |
| Ffïoedd proffesiynol | 43 | 2 | 45 | 51 |
| Yswiriant | 21 | - | 21 | 22 |
| Argraffu a deunydd ysgrifennu | 54 | - | 54 | 68 |
| Postio | 58 | - | 58 | 80 |
| Costau cyfrifiaduron | 15 | 1 | 16 | 18 |
| Llogi mannau cyfarfod | 43 | - | 43 | 77 |
| Ffïoedd archwilio | 16 | - | 16 | 14 |
| Gwasanaethau archwilio eraill | 3 | - | 3 | 4 |
| Cynnal a chadw | 4 | 1 | 5 | 5 |
| Costau eraill | 47 | 1 | 48 | 50 |
| **Cyfanswm** | **429** | **18** | **447** | **582** |

### 9. Llog Derbyniadwy

Derbyniwyd £7,000 o log  (2008-09: £45,000) yn ystod y cyfnod mewn perthynas â chyfrif cadw'r Cyngor, gan gynnwys croniad o £2,000 (2008-09, dim).

**10. Asedau anghyfredol**

| | Offer Swyddfa £'000 | Offer cyfrifiadurol £'000 | Dodrefn a gosodiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 89 | 326 | 171 | 586 |
| Ychwanegiadau | 14 | 1 | - | 15 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **103** | **327** | **171** | **601** |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 88 | 277 | 155 | 520 |
| Cost am y flwyddyn | 3 | 27 | 6 | 36 |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **91** | **304** | **161** | **556** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2010** | **12** | **23** | **10** | **45** |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2009 | 1 | 49 | 16 | 66 |

**11. Asedau anniriaethol**

| | Datblygiadau i'r gronfa ddata £'000 | Trwyddedau Meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 83 | 2 | 85 |
| Ychwanegiadau | 24 | - | 24 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **107** | **2** | **109** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 33 | 1 | 34 |
| Cost am y flwyddyn | 28 | 1 | 29 |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **61** | **2** | **63** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2010** | **46** | **0** | **46** |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2009 | 50 | 1 | 51 |

### 12. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill: Llywodraeth Cynulliad Cymru | 1,147 | 1,025 |
| Rhagdaliadau | 96 | 100 |
| **Cyfanswm** | **1,243** | **1,125** |

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r cynnydd mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill yn adlewyrchu'r ffaith bod amseriad y broses o dynnu i lawr y grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i dderbyn yn gallu amrywio.

### 13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | **£'000** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2008 | 3,116 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (1,270) |
| Balans ar 31 Mawrth 2009 | **1,846** |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 387 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | **2,233** |

Cadwyd balansau arian parod y Cyngor mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chadwyd unrhyw falansau gyda Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

### 14. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Ffïoedd cofrestru a ragdalwyd | 399 | 308 |
| Symiau taladwy eraill | 523 | 688 |
| Incwm grant rhagdaledig: Llywodraeth Cynulliad Cymru | 198 | - |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 25 | 25 |
| Pensiwn | 18 | 19 |
| Croniadau | 1,683 | 1,643 |
| **Cyfanswm** | **2,846** | **2,683** |

Ar ôl terfyn y rhaglen DPP, nid oedd gan y Cyngor unrhyw ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2010 (2008-09: £10,321). Cyllid grant DPP oedd yr ymrwymiadau hyn yn flaenorol, a oedd wedi'u dyrannu i athrawon, ond y gallai'r Cyngor gael hawliadau ar ei gyfer ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaed y taliad olaf o'r hawliadau hyn o gyllid grant DPP ar gyfer 2009-10.

**15. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau**

| | **£'000** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2009 | - |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 95 |
| Balans ar 31 Mawrth 2009 | **95** |

Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer costau hysbys o ganlyniad i roi terfyn ar y rhaglen DPP, sef taliadau ymddeol cynnar a diswyddo cynnar i'w talu ym mis Medi 2010. Cyfrifwyd y ddarpariaeth ar sail amcangyfrifon setlo cyfredol a ddarparwyd gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y costau hyn eu had-dalu'n llawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**16. Cysoni symudiadau yng Nghronfa Grant y Llywodraeth**

| | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 7 | 11 |
| Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Rhyddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn | (3) | (4) |
| **Ar 31 Mawrth** | **4** | **7** |

**17. Cronfeydd dynodedig**

Yn unol â strategaeth ariannol y Cyngor, mae'r cronfeydd dynodedig canlynol wedi'u sefydlu yn ystod y flwyddyn:

**Cronfa etholiadau** - i ledaenu costau ethol aelodau o athrawon i'r Cyngor dros y cyfnod pedair blynedd rhwng etholiadau. Oherwydd y costau is a gafwyd yn etholiad 2008, mae lefel y gronfa sydd ei hangen wedi gostwng i £60,000. Bydd angen cronni hyn mewn pryd i etholiad 2011-12; mae £59,285 yn y gronfa hon ar hyn o bryd.

**Cronfa safonau proffesiynol** - i leihau effaith anwadaliad ar nifer yr achosion a gyfeiriwyd ar gyfrifiad gosod ffi'r Cyngor, ac i ddarparu ar gyfer costau unrhyw her gyfreithiol a fyddai'n llawer mwy na'r costau a delir gan Yswiriant Indemniad Proffesiynol. Cytunodd y Cyngor i sefydlu'r gronfa hon yn ystod 2005-06 pan osodwyd balans o £75,000. Mae'r balans hwn bellach wedi'i gronni.

**Cronfa cyfalaf** - i gefnogi cynlluniau'r Cyngor i brynu swyddfeydd yn y dyfodol. Cymeradwywyd y gronfa hon gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2006 gyda golwg ar ddatblygu, dros gyfnod yn y dyfodol, falans o £350,000. Balans y gronfa hon yw £30,000.

| | Etholiad £'000 | Safonau Proffesiynol £'000 | Cyfalaf £'000 | **CYFAN-SWM £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | 39 | 30 | 30 | **99** |
| Rhyddhawyd o gronfeydd | - | - | - | - |
| Ychwanegiad at gronfeydd | 20 | 45 | - | **65** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | **59** | **75** | **30** | **164** |

**18. Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

**Cysoni gwarged ar weithgareddau cyffredin â mewnlif arian net o weithgareddau cyffredin**

| | 2009-10<br>£'000 | 2008-09<br>£'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/ Gwarged ar weithgareddau cyffredin | 199 | 34 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | 18 | 14 |
| Dibrisiad | 36 | 39 |
| Amorteiddiad | 29 | 20 |
| Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn Masnach a symiau taladwy eraill | 163 | (987) |
| (Cynnydd)/ Gostyngiad mewn Masnach a symiau derbyniadwy eraill | (118) | (383) |
| Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn darpariaethau | 95 | |
| Rhyddhawyd o Gronfa Grant y Llywodraeth | (3) | (4) |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Etholiadau | - | - |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Safonau Proffesiynol | - | - |
| Addasiad yr IFRS: IAS 19 (2008-09) | (21) | |
| **Mewnlif/ (all-lif) net o weithgareddau cyffredin** | **398** | **(1,267)** |

**Dadansoddiadau o newidiadau mewn cronfeydd net yn ystod y cyfnod**

| | 2010<br>£'000 | 2009<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 1,846 | 3,116 |
| Mewnlif/(all-lif) arian net | 387 | (1,270) |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth** | **2,233** | **1,846** |

Cafodd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2010 eu dal gyda banc masnachol, ac mewn arian parod.

**19. Ymrwymiadau Cyfalaf**

Ar 31 Mawrth 2010, nid oedd gan y Cyngor unrhyw ymrwymiadau cyfalaf (2008-09: £0).

**20. Cysoni Symudiad mewn Ecwiti Trethdalwyr**

| | Balans ar 1 Ebrill 2009 £'000 | Gwarged/ (diffyg) am y flwyddyn £'000 | Trosglwyddiad net i/ (o) gronfeydd £'000 | **Balans ar 31 Mawrth 2010 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Grant Ohiriedig y Llywodraeth | 7 | - | (3) | **4** |
| Cronfa etholiadau | 39 | - | 20 | **59** |
| Cronfa safonau proffesiynol | 30 | - | 45 | **75** |
| Cronfa cyfalaf | 30 | - | - | **30** |
| Cronfa gyffredinol | 299 | 224 | (65) | **458** |
| **Cyfanswm** | **405** | **224** | **(3)** | **626** |

**21. Prydlesi gweithredu**

| | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer taliadau prydlesi gweithredu | 93 | 94 |
| | **93** | **94** |
| Ymrwymiad blynyddol ar brydlesi adeiladau yn dod i ben: | | |
| Cyn pen blwyddyn | 93 | - |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | - | 94 |
| Ar ôl mwy na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **93** | **94** |

**22. Deilliannau ac Offerynnau Ariannol eraill**

Mae swyddogaethau craidd y Cyngor wedi'u cyllido gan incwm o ffioedd cofrestru athrawon, ac mae gweithgareddau eraill a gwblhawyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu cyllido gan grant. Derbynnir incwm ffioedd ymlaen llaw bob blwyddyn a chaiff cymorth grant ei dynnu i lawr bob mis, yn ôl yr angen. Oherwydd natur anfasnachol y gweithgareddau hyn a'r ffynonellau cyllid hyn, nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risg ariannol.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau, ac mae'n lleihau'r posibiliad o fod yn agored i risg hylifedd drwy reoli ei adnoddau.

Cedwir ei falansau arian mewn cyfrifon banc masnachol: felly nid yw'r Cyngor yn agored i risg o ran cyfraddau llog. Er bod y Cyngor yn gallu benthyg arian, ni fu angen

iddo wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'r gwarged, ond mae hyn yn adnau tymor byr gyda'r Trysorlys, ac nid yw'n newid y risgiau a wynebir wrth gyflawni swyddogaethau'r Cyngor.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau eu nodi mewn arian sterling, felly nid yw’n agored i risgiau arian cyfred.

## 23. Trafodion Parti Cysylltiedig

Ystyrir Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn barti cysylltiedig, ac yn ystod y flwyddyn, mae’r Cyngor wedi cael amryw drafodion perthnasol â LlCC.

Dyma oedd y flwyddyn olaf i’r Cyngor weinyddu rhaglen gyllido Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i athrawon yng Nghymru. Ystyrir ysgolion y dyfarnwyd cyllid DPP iddynt yn ystod y flwyddyn lle mae’r ysgol honno’n cyflogi naill ai athro/athrawes neu bennaeth sydd hefyd yn aelod o’r Cyngor yn bartïon cysylltiedig.

Mae’r tabl isod yn darparu manylion y cyllid a ddyfarnwyd. Ym mhob achos, ni chymerodd yr aelod perthnasol ran yn y broses o wneud y penderfyniad i ddyfarnu cyllid.

| Enw’r ysgol | Nifer yr athrawon y dyfarnwyd cyllid DPP iddynt | Cyfanswm y cyllid DPP a ddyfarnwyd (£) |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Bryn Hafren | 19 | 9,987 |
| Ysgol Gynradd y Trallwng | 11 | 6,557 |
| Ysgol Gyfun Pencoed | 14 | 7,589 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 2 | 1,300 |
| Ysgol Gyfun Cynffig | 2 | 994 |
| Ysgol Gyfun Llangatwg | 1 | 638 |
| Ysgol Gyfun Croesyceiliog | 8 | 3,401 |
| Ysgol Dinas Brân | 1 | 533 |
| Ysgol Gynradd Notais | 1 | 544 |
| Ysgol Uwchradd Llanedeyrn | 11 | 6,256 |
| Ysgol Gynradd St Therese | 2 | 1,073 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rown Williams | 1 | 650 |
| Ysgol Y Foryd | 2 | 1,190 |
| **Cyfanswm** | **75** | **40,712** |

Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd cyllid DPP i dri aelod tuag at eu datblygiad proffesiynol eu hunain (rhestrir y manylion isod).

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

| Enw | Categori DPP | Swm |
|---|---|---|
| Beth Davies | Bwrsari | £461 |
| Cleo Sollars | Bwrsari | £495 |
| Sarah Stockford | Bwrsari | £643 |

Philip Bassett, sy'n aelod o'r Cyngor, yw Deon Addysgu a Dysgu ym Mhrifysgol Glyndŵr. Cafodd elfennau o gynllun peilot yr Athro Siartredig eu cyflwyno gan y sefydliad hwnnw, ac mae ef yn ymwneud â'r cynllun peilot. Y cyfanswm a adroddir yn y Cyfrifon hyn mewn perthynas â'r cynllun peilot yw £7,980.

Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio cyfleusterau  Prifysgol Glyndŵr ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor. Y cyfanswm a nodir yn y Cyfrifon yw £253.

## 24. Rhwymedigaethau wrth Gefn

Nid oes unrhyw rwymedigaethau wrth gefn.

## 25. Digwyddiadau ers diwedd y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar y dyddiad pan lofnodwyd y Cyfrifon hyn.

Awdurdododd y Prif Weithredwr y Cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 24 Awst 2010.